

Manteisio i'r eithaf ar ddysgu

Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig



Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Manteisio i'r eithaf ar ddysgu Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig

- Cynulleidfa** Holl ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru; Sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Athrawon; Awdurdodau Addysg Lleol; undebau athrawon a chyrrff sy'n cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysig; cyrff cenedlaethol yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Yn y ddogfen hon ceir canllawiau ynghylch sut orau i weithredu'r cwricwlwm diwygiedig o fis Medi 2008 ymlaen.
- Gwybodaeth bellach** Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i'r cyfeiriad canlynol:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5496
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	2
Canolbwyntio ar y dysgwr	4
Cynllunio dysgu	6
Dysgu ac addysgu	14
Asesu dysgu	16
Cymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4	21

Atodiadau

Atodiad 1: Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3–7 oed	24
Atodiad 2: Y cwricwlwm ysgol, Cyfnodau Allweddol 2 i 4 ac ôl-16	25
Atodiad 3: Cyfeiriadau defnyddiol	26

Rhagair

Yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datgan ei saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod gan holl blant a phobl ifanc Cymru:



- y cychwyn gorau un mewn bywyd, gan osod y seiliau gorau posib er mwyn iddynt dyfu a datblygu yn y dyfodol
- amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd o ran addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys dysgu sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yr iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posib, heb gael eu cam-drin, eu herlid na'u hecsploetio
- mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- rhywun i wrando arnynt, a'u bod yn cael eu trin â pharch, a bod eu tras a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- yr hawl i beidio bod dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

Sefydlwyd ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at addysg a dysgu gydol oes oddi mewn i'r cyd-destun eang hwn. Ei gweledigaeth yw y dylai pob unigolyn ifanc gael 'y cyfle i gyflawni hyd eithaf eu gallu', bod 'system ddysgu hollol gynhwysfawr sy'n gwasanaethu pob . . . cymuned leol', a bod y cwricwlwm ysgol newydd yn 'hybu a chefnogi datblygiad personol ac yn ymateb i anghenion disgyblion unigol'.

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys gorchmynion pwnc diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol a'r fframweithiau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a byd gwaith, y fframwaith sgiliau anstatudol a'r fframwaith cenedlaethol enghreifftiol ar gyfer addysg grefyddol. Ceir y manylion llawn yn yr Atodiadau.

Gwnaed newidiadau sylweddol o ran cynnwys a chyflwyniad.

Gwnaed newidiadau sylweddol o ran cynnwys a chyflwyniad, a bydd y rhain yn cynnig cyfleoedd a her i ysgolion wrth iddynt ystyried sut i ddefnyddio cyhoeddiadau newydd y cwricwlwm orau ar gyfer cynllunio a darparu profiadau priodol, perthnasol ac ysgogol i bob dysgwr.

Nod y cwricwlwm yw:

- canolbwyntio ar y dysgwr
- sicrhau bod y weithred o ddatblygu sgiliau priodol yn cael ei phlethu drwy'r holl gwricwlwm
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant 3–19
- cynnig llai o gynnwys pynciol a chanolbwyntio mwy ar sgiliau
- bod yn hyblyg
- bod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain
- cefnogi polisi'r Llywodraeth gan gynnwys dwyieithrwydd, Y Cwricwlwm Cymreig/Cymru, Ewrop a'r Byd, cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd, addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a'r byd gwaith ac entrepreneuriaeth.

Canolbwyntio ar y dysgwr



'Mae pob plentyn yn meddu ar y gallu i ddysgu a llwyddo mewn addysg.'

Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* yn amlygu'r angen am gwricwlwm sy'n ddysgwr-ganolog er mwyn codi safonau a gwella profiadau addysg pob dysgwr.

Mae pob dysgwr yn golygu pob un dysgwr – gan gynnwys y dysgwr 'cyffredin' yn ogystal â rhai sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu, rhai sydd dan anfantais, sy'n anodd eu cymell, yn fwy galluog a thalentog, rhai sy'n perthyn i grwpiau hil/diwylliant amrywiol, a phlant sy'n derbyn gofal.

Mae'r testun, 'Cynnwys pob dysgwr', sy'n ymddangos ar ddechrau pob fframwaith a gorchymyn pwnc y cwricwlwm cenedlaethol yn nodi y caiff ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau/cyfnodau allweddol blaenorol yn y cwricwlwm er mwyn i bob dysgwr gael mynediad at sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth perthnasol ar lefel briodol. Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwyllir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfateb â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis topigau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, sgiliau cyfathrebu, technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Er mwyn i orchymnion a fframweithiau pwnc y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig fod yn wirioneddol ddysgwr-ganolog, maent yn ymgorffori egwyddorion a geirfa asesu ar gyfer dysgu. Trafodir y rhain yn yr adran sy'n dwyn y teitl 'Asesu dysgu'.

Yr her i ysgolion

Dylai'r cwricwlwm alluogi pob dysgwr i ddysgu mewn modd ac ar gyflymder sy'n caniatáu iddynt lwyddo. Mae angen i reolwyr ac athrawon:

- hyrwyddo cynhwysiant a chael plant i ymwneud ag addysg a dysgu
- sicrhau y caiff anghenion pob dysgwr eu diwallu'n effeithiol
- adnabod cryfderau dysgwyr a'r meysydd i'w gwella drwy ddefnyddio technegau asesu effeithiol
- defnyddio'r wybodaeth hon fel ffynhonnell ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, ac addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb ag aeddfedrwydd a gallu'r dysgwr sy'n datblygu o hyd
- os ydynt am wneud cynnydd, sicrhau bod dysgwyr yn gwybod:
 - **ble** maen nhw yn y continwwm dysgu
 - **ble** mae angen iddynt anelu ato
 - **pa** ffordd sydd orau i gyrraedd yno.

Ysgrifennwyd *Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad*, ACCAC, 2003, yn bennaf ar gyfer athrawon sy'n addysgu disgyblion mwy galluog a thalentog. Mae'n cynnwys canllawiau defnyddiol i bob athro/athrawes gan gyfeirio at ddatblygu sgiliau meddwl, yr ystod o arddulliau dysgu a threfnu hyblyg yn y dosbarth.

Cynllunio dysgu



Mae'r fframwaith Sgiliau wedi bod yn sail i'r holl adolygiad o'r cwricwlwm.

Datblygu sgiliau

Datblygwyd *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol er mwyn helpu ysgolion i gynllunio'r gwaith o ddatblygu sgiliau cyffredinol trosglwyddadwy ar gyfer dysgwyr o 3–19 oed, a bu'n sail i'r adolygiad a wnaed o'r cwricwlwm. Gall yr un sgiliau fod yn ofyniad dysgu mewn mwy nag un pwnc, a'r sgiliau hyn – datblygu meddwl, sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif sy'n creu adrannau'r fframwaith Sgiliau. Gellir dod o hyd i elfennau o'r fframwaith Sgiliau ar draws y Meysydd Dysgu (yn y Cyfnod Sylfaen) a'r Rhaglenni Astudio, ac yn y deilliannau a'r disgrifiadau lefel lle bo'n briodol.

Er mwyn sicrhau eglurder, ac am resymau dylunio ymarferol, cyflwynir y fframwaith Sgiliau ar ffurf continwmm chwe cholofn, ac mae'n nodi agweddau ar gynnydd y dysgwr 'cyffredin' tybiedig o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ôl-16. Sylweddolwn fod cyfyngiadau i'r math hwn o gyflwyniad a phwysleisiwn na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran arbennig.

Gan fod datblygu sgiliau yn broses droellog yn hytrach na llinellol, sicrheir dilyniant o ran sgiliau drwy gynyddu her y cyd-destunau a ddefnyddir i ddatblygu'r sgiliau hynny. Mae cysylltiad hefyd rhwng y cynnydd a chymhlethdod y gweithgareddau dan sylw. Mae hyn yn golygu y gallai dysgwyr gweddol ifanc fod yn arddangos rhai o'r sgiliau ar 'ddiwedd' continwmm chwe cholofn y fframwaith – er enghraifft, y gallu i werthuso'r hyn a gyflawnwyd. Yn yr un modd, gall fod yn briodol i oedolion ifanc arddangos rhai o'r sgiliau a ddisgrifiwyd ar ddechrau'r continwmm. Yn adran 'Cefndir' y fframwaith Sgiliau ceir mwy o ganllawiau ynghylch y dilyniant hwn.

Hyblygrwydd wrth gynllunio

Un o nodau cyffredinol y cwricwlwm diwygiedig yw lleihau'r cyfarwyddiadau pendant a rhoi rheolaeth a chyfrifoldeb yn ôl i ysgolion ac i'r dysgwyr eu hunain.

Mae ysgolion yn rhydd i drefnu a darparu'r cwricwlwm yn y modd sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a'u hanghenion orau. Does dim cyfyngiadau o ran dyrannu amser neu drefnu pynciau.

Gallant ddewis:

- cadw eu dull presennol o drefnu'r cwricwlwm a mabwysiadu dull newydd o ddarparu
neu
- ddatblygu dulliau mwy dychmygus ac arloesol o ddarparu'r cwricwlwm statudol. Gallai newidiadau o'r fath o ran ymagwedd olygu symud oddi wrth amserlen gaeth ar gyfer pob awr, cyfuno addysgu un neu fwy o bynciau mewn modd thematig, neu ddefnyddio cyfres o ddyddiau cyfan – yn yr ysgol, neu y tu allan i'r ysgol – i ganolbwyntio ar dopig penodol.

Er mwyn i ysgolion allu symud tuag at ddulliau mwy dychmygus ac arloesol o drefnu'r cwricwlwm, gobeithir y bydd y fframwaith Sgiliau'n cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â gorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol a fframweithiau eraill i helpu gyda'r broses honno. Yn wir, efallai mai fel man cyfeirio cyntaf y gallai'r ddogfen fod ar ei mwyaf effeithiol.

Gellid defnyddio'r canlynol fel man cychwyn wrth gynllunio:

- **Canolbwyntio ar sgiliau**

Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn defnyddio'r fframwaith Sgiliau ac/neu'r adran Sgiliau yng ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol, yn y lle cyntaf, er mwyn nodi pa sgiliau y dylid canolbwyntio arnynt. Yna, byddant yn troi at adrannau Ystod y gorchmynion er mwyn nodi a mapio'r cyd-destunau pwnc mwyaf priodol ar gyfer datblygu'r sgiliau hynny. Er enghraifft, pe bai ysgol uwchradd am i un grŵp blwyddyn ganolbwyntio am gyfnod ar drin data a sgiliau gwaith maes, gallent chwilio am gyd-destunau priodol ym maes daearyddiaeth, mathemateg a gwyddoniaeth. Yna gallent ddatblygu cynllun dysgu lle gallai athrawon gydweithio i ddarparu ymagwedd gydlynol, gynyddol ac amrywiol tuag at addysgu, dysgu a chymhwyso'r sgiliau dan sylw, gyda chefnogaeth TGCh.



Mae rhai ysgolion yn teimlo bod cyflwyno gwersi sgiliau ar wahân wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn addysgu sgil neu strategaeth/dull penodol; er enghraifft, sganio am wybodaeth. Yna, anogir a disgwylir i ddysgwyr ymarfer a defnyddio'r sgil yn eu holl wersi ar hyd y cwricwlwm, fel eu bod, dros amser, yn hel cyfres o sgiliau y gallant eu defnyddio pryd bynnag y daw cyfle. Bydd athrawon yn ymwybodol o'r sgil gyfredol sydd dan sylw – ac o'r sgiliau a addysgwyd eisoes – a byddant yn gallu cynllunio cyfleoedd i'w defnyddio, fel bod yr holl ysgol yn cymryd rhan yn y gwaith parhaus o ddatblygu, cymhwysu a chyfnerthu sgiliau.

neu

- **Ymagwedd thematig neu dopigol**

Yn yr achos hwn, yr adrannau Ystod yng ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol fyddai'r man cychwyn er mwyn canfod cyfuniadau o bynciau ar hyd y cwricwlwm a allai gwmpasu cynnwys perthnasol a chyflenwol a datblygu sgiliau cyffredin. Wedi hynny, gellid ymgorffori dilyniant sgiliau yn y cynlluniau dysgu ar gyfer yr astudiaethau pynciol neu alwedigaethol hyn a'u datblygu mewn cyd-destunau go iawn.

Gallai'r gair 'topig' gynnwys continwwm o ddeunydd pynciol, gan amrywio o ddyfyniad o orchymyn pwnc unigol i thema astudio drawsgwricwlaidd. Gallai gyfeirio at:

- dopig sy'n cwmpasu rhannau amrywiol o'r un gorchymyn cwricwlwm megis ymchwilio i 'swydd pwy?' a allai gynnwys materion cynhyrchu, defnyddio a datblygu, a materion cyflogaeth lleol mewn daearyddiaeth, Cyfnod Allweddol 3, gan gyfrannu ar yr un pryd tuag at *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*
- thema astudio megis *Hanes Caethwasiaeth, Y Gemau Olympaidd* neu *Troi'n Wyrdd* lle byddai angen cydweithio o fewn grŵp o bynciau dynodedig a fyddai'n canolbwyntio ar wahanol agweddau'r thema a ddewiswyd gan ddarparu dysgu cyflenwol a chydlynol
- prosiect sy'n rhoi sylw i sgiliau cyffredin megis dewis a chywain gwybodaeth, arsylwi a chofnodi, archwilio ac ymchwilio – er enghraifft mewn prosiect sy'n cysylltu celf a gwyddoniaeth
- adrannau'n cydweithio ar ymagweddau cyffredin sy'n ymwneud â datblygu iaith a dwyieithrwydd, fel y disgrifir yn *Gwneud y Cysylltiad: Dysgu iaith 5–14*, ACCAC, 2003, ac fel yr hyrwyddwyd gan Brosiect Llythrennedd Triphlyg CILT (gweler: www.ciltcymru.org.uk).



Beth bynnag fo'r man cychwyn, mae yna gyfleoedd i fabwysiadu ymagweddau amrywiol ac iddynt raddfa amser ac amserlen hyblyg. Er nad oes dim a all ddisodli dysgu ac addysgu rheolaidd mewn pynciau/meysydd lle mae angen i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu sgiliau dros amser, gellir hefyd gynllunio digwyddiadau unigol a fydd yn dod â grŵp blwyddyn, neu weithiau yr holl ysgol, at ei gilydd i gydweithio wrth ddysgu. Gallai digwyddiadau o'r fath gynnwys:

- diwrnod cyfan o her 'meddwl' sy'n gysylltiedig â thopig penodol
- dathlu gwaith y tymor yn y celfyddydau
- diwrnod addysg bersonol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â thopig penodol, lle gellir defnyddio siaradwyr ac adnoddau allanol i gyflwyno gwybodaeth a syniadau i ychwanegu at y cwricwlwm a ddarperir gan yr ysgol, a'i hybu
- her menter.

Drwy brofiadau o'r fath, bydd dysgwyr yn cael cyfle i gyfnerthu a chymhwyso'u sgiliau mewn cyd-destun hollol newydd. Mae ysgolion sydd wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon yn teimlo ei fod yn ddull effeithiol ac ysgogol iawn o adeiladu hunanhyder a hunan-barch y dysgwyr.

Os bydd un athro/athrawes yn addysgu un dosbarth drwy'r amser, neu am y rhan fwyaf o'r amser, tasg cymharol syml yw cynllunio a rhoi cynllun dysgu ar waith sy'n cynnwys canolbwyntio ar sgil benodol neu ar fwy nag un pwnc, ac asesu a chofnodi'r hyn a gyflawnwyd gan bob dysgwr o ran sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Bydd hyn yn digwydd yn aml yn y cyfnod cynradd. Nid yw yr un mor syml yn y cyfnod uwchradd, ond, yn ôl Estyn, mae rhai ysgolion uwchradd eisoes yn dechrau aildrefnu, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 3, er mwyn gwneud lle i ymagweddau o'r fath (gweler *Symud Ymlaen . . . Gwellu Dysgu, Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, 2004, cyhoeddiad ar wefan Estyn, www.estyn.gov.uk).



Ar adegau trosglwyddo allweddol, mae'n arbennig o bwysig bod athrawon yn adeiladu ar yr addysgu a'r dysgu a gafwyd eisoes wrth gynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, gellid strwythuro addysgu a dysgu ym Mlwyddyn 3 i adlewyrchu'r ymagwedd a ddefnyddiwyd gyda lleoliadau partner y Cyfnod Sylfaen, fel bod themâu'r Cyfnod Sylfaen yn parhau i gysylltu meysydd pwnc tebyg a sgiliau. Yn yr un modd, gellid amserlennu pynciau ym Mlwyddyn 7 i adlewyrchu'r ymagwedd a ddefnyddir mewn ysgolion cynradd partner.



**Mae ymagwedd
ysgol gyfan
yn hanfodol.**

Ym mhob cyfnod, mae'n hanfodol bod ymagwedd ysgol gyfan yn cael ei mabwysiadu er mwyn sicrhau gweledigaeth gyffredin a chyson ar draws yr ysgol i gyd. Dylai aelod uwch o staff fod yn gyfrifol am gydlynu ymagweddau trawsgwricwlaidd tuag at ddysgu. Dim ond ar ôl gwneud hynny y gall ysgolion sicrhau:

- y gwnaed penderfyniadau ynglŷn â pha gyd-destunau sydd fwyaf perthnasol a phriodol i sicrhau datblygiad a dilyniant sgiliau penodol (ni ellir defnyddio pob pwnc i ddatblygu pob sgîl)
- bod profiadau dysgwyr yn amrywiol a phleserus, heb fod yn ailadroddus a diflas
- bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain
- bod gwahaniaethu priodol ac ystod a her digonol yn y tasgau fel bod modd i bob dysgwr gymryd rhan
- bod athrawon yn defnyddio ymagweddau cyffredin tuag at addysgeg ac yn annog dysgu gweithredol a rhyngweithiol
- bod gan athrawon yr un disgwyliadau, er enghraifft, mewn perthynas â chyflwyniad y gwaith
- nad oes unrhyw fylchau yn narpariaeth y cwricwlwm statudol
- bod parhad a dilyniant yn y cynlluniau dysgu
- bod y gweithdrefnau asesu yn briodol a ffurfiannol
- bod athrawon yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyrhaeddiad y dysgwyr ymysg ei gilydd a chyda'r dysgwyr eu hunain
- bod yr holl athrawon yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu profiad dysgu cyfan pob dysgwr unigol.

Ceir canllawiau manwl ynghylch strategaethau llwyddiannus ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd mewn ystod o gyhoeddiadau yn y gyfres *Anelu at Ragoriaeth*, yn arbennig y strategaethau hynny i ddatblygu llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl ar draws y cwricwlwm (gweler Atodiad 3 am fanylion llawn).

Wrth gynllunio'r cwricwlwm, dylai ysgolion, colegau a darparwyr addysg gofio bod dimensiwn Cymreig ein cwricwlwm yn ei wneud yn wahanol i gwricwlwm unrhyw wlad arall. Dylai'r Cwricwlwm Cymreig fod yn sail i'r holl gwricwlwm ar gyfer dysgwyr 3–14, ac mae cyhoeddiad ACCAC, *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig*, 2003, yn rhoi canllawiau manwl ynglŷn â hyn. Bydd cyhoeddiad newydd i gefnogi'r gofyniad i ddysgu am Gymru, Ewrop a'r Byd, fel rhan o'r cwricwlwm 14–19, ar gael yn 2009. Bydd y ddogfen hon yn seiliedig ar brofiad, yn arbennig y profiadau a gafwyd yng Nghanolffannau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r cwricwlwm diwygiedig hefyd yn cadw a chynyddu cyfleoedd i ddatblygu rhai o bolisiau eraill y Llywodraeth a themâu trawsbynciol. Ymysg y rhain ceir:

- cyfle cyfartal
- bwyd a ffitrwydd
- addysg yn ymwneud â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Defnyddiwyd eiconau yn yr holl ddogfennau diwygiedig i amlygu gofynion penodol wrth ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, y Cwricwlwm Cymreig/Cymru Ewrop a'r Byd, addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a byd gwaith.

Ceir canllawiau pellach i ysgolion yn Atodiad 3.



Nod y cwricwlwm newydd yw bod yn gyfoes ac ysgogi pob dysgwr.

Perthnasedd i'r unfed ganrif ar hugain

Nod y cwricwlwm newydd yw bod yn gyfoes ac ysgogi pob dysgwr. Mae cynnwys y fframwaith a'r pynciau wedi cael ei ddiwygio i greu cwricwlwm cyfoethog a fydd yn ysgogi a diwallu anghenion pob dysgwr unigol, a'u paratoi ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Dyma rai o'r diwygiadau hynny:

- yng ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg ceir pwyslais ar astudio'r cyfryngau a thestunau delweddau symudol
- cyfle i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau cyfredol yn y newyddion mewn daearyddiaeth
- disgwyl y bydd dysgwyr yn datblygu llythrennedd ariannol
- gofyniad i ystyried entrepreneuriaeth yn rhan o'r ystod astudio yn gyrfaoedd a byd gwaith
- yn y gorchymyn ar gyfer cerddoriaeth ceir gofyniad i ddod â cherddoriaeth yn fyw drwy ddefnyddio technoleg ac ystyried enghreifftiau o gerddoriaeth sy'n esblygu yn ystod yr unfed ganrif ar hugain
- yn ieithoedd tramor modern ceir gofyniad i weithio gyda deunyddiau dilys a rhyngweithio â siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr eraill yr iaith mewn amryw o ffyrdd
- pwyslais ar ddinasyddiaeth weithredol fel un o themâu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
- pwyslais ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ABCh, daearyddiaeth a gwyddoniaeth.

Yr her i ysgolion

Dylai tîm rheoli pob ysgol:

- nodi anghenion penodol yr ysgol o safbwynt y cwricwlwm ac asesu, ystyried y posibiladau a gwneud y penderfyniadau sy'n cydweddu orau â'u dysgwyr
- ymateb i'r hyblygrwydd newydd sydd ymhlyg yn y cwricwlwm newydd – hyblygrwydd ynglŷn â threfniadaeth yr holl gwricwlwm ac wrth gynllunio llwybrau dysgu sy'n cydfynd ag anghenion dysgwyr unigol
- annog athrawon, lle bo'n briodol, i ddefnyddio'r eiconau er mwyn gwella'u gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a darparu profiadau dysgu newydd cyffrous
- annog a galluogi athrawon i wneud defnydd llawn o adnoddau lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu'r Cwricwlwm Cymreig/Cymru, Ewrop a'r Byd, a hyrwyddo dwyieithrwydd
- penderfynu ar y ffordd orau o gyflyru dysgwyr, gyda chyfuniad o ddysgu parhaus a digwyddiadau unigol a fydd yn cyffroi'r dychymyg, gan greu mwynhad a brwdfrydedd
- nodi un neu fwy o uwch reolwyr i gydlynw gwaith cynllunio ysgol gyfan a datblygu sgiliau.

Dysgu ac addysgu



Nod sylfaenol addysg yw creu dysgwyr effeithiol sy'n llawn cymhelliant, sy'n fwyfwy cyfrifol am eu dysgu eu hunain, sy'n gallu gwneud defnydd llawn o'r technolegau newydd ac a fydd yn gallu dysgu a chymhwyso sgiliau newydd yn effeithiol ar hyd eu hoes, boed hynny yn yr ysgol, yn y gwaith, neu gartref.

Yn y cyflwyniad a geir yn y ddogfen hon gan AADGOS, a geir ar y we, *Pam y mae angen datblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?* (gweler Atodiad 3 am gyfeiriad y wefan) nodir:

'Gellid dadlau bod y broses ddysgu fel sgil yn ei rhinwedd ei hun wedi bod yn llai pwysig hyd yn hyn yn gyffredinol na'r gwaith o ddysgu gwybodaeth am bwnc a ffeithiau allweddol.

Felly, mae'n hollbwysig bod dulliau addysgu'n cael eu hadolygu a'u diweddarau, fel bod dysgwyr yn cael profiad o'r sgiliau y mae gofyn i ddinasyddion yr oes bresennol feddu arnynt a'u bod yn cael cyfle i feithrin a meistrolï'r sgiliau hynny.'

Yn y ddogfen gyfatebol *Sut i ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* (gweler Atodiad 3 am gyfeiriad y wefan) ceir canllawiau manwl yn ymwneud ag ymagweddau addysgu y canfuwyd, mewn ymchwil diweddar, eu bod yn llwyddiannus ac ysgogol i athrawon a dysgwyr fel ei gilydd. Mae'n hyrwyddo:

- pwyslais ar ddatblygu dysgu yn hytrach na throsglwyddo ffeithiau yn unig
- dysgu cydweithredol, lle bydd dysgwyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd mewn parau neu grwpiau bychain
- dysgu gweithredol a rhyngweithiol
- datblygu meddwl, yn arbennig holi cwestiynau, cynllunio, datrys problemau, sgiliau meddwl creadigol a beirniadol
- pennu meini prawf llwyddiant fel bod dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud, yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella, a sut i wneud hynny
- myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd a sut y bu i'r dysgu ddigwydd.

Bydd gwella arferion y dosbarth yn galluogi dysgwyr i:

- feddwl drostynt hwy eu hunain
- codi safon eu siarad a'u gwranddo
- datblygu sgiliau dwyieithog a'r gallu i weithio mewn dwy neu fwy o ieithoedd
- dyfnhau eu dealltwriaeth o dopigau
- trin tystiolaeth yn fwy beirniadol
- gwneud dyfarniadau a phenderfyniadau rhesymegol, yn hytrach na neidio i gasgliadau
- deall a chyflymu eu cynnydd eu hunain
- sicrhau canlyniadau o ansawdd gwell
- cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain
- datblygu mwy o hunanhyder
- ymgymryd ag hunanasesu ac asesu cyfoedion
- bod yn fwy parod ar gyfer heriau'r ysgol a'r byd ehangach.

Yr her i ysgolion

Mae angen i reolwyr ysgol:

- nodi arferion da a hwyluso'r broses o rannu arferion da o fewn yr ysgol
- monitro'r ystod o weithgareddau addysgu a dysgu
- adolygu a diweddarau'r addysgeg drwy ddarparu hyfforddiant priodol – mewnol neu allanol
- gwerthuso effaith yr hyfforddiant hwn.

Asesu dysgu



Mae'r Grŵp Diwygio Asesu wedi llunio cymhariaeth gryno o'r ffurfiau gwahanol o asesu (1999):

'Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng *asesu dysgu* at bwrpas dyfarnu graddau a llunio adroddiadau, sydd â threfn wedi'i hen sefydlu, ac *asesu ar gyfer dysgu*, sydd yn gofyn am flaenoriaethau gwahanol, trefnau newydd ac ymrwymiad newydd.'

Asesu ar gyfer dysgu

Ar gyfer asesu ffurfiannol parhaus – asesu *ar gyfer* dysgu – mae'n hanfodol canolbwyntio ar gyrhaeddiad y dysgwr a sut i symud ymlaen, yn hytrach nag ar ddeilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Bydd hyn yn golygu bod dysgwyr yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant cysylltiedig, fel y gallant, gyda chefnogaeth yr athro/athrawes, ddatblygu eu gallu i asesu eu hunain a'u cyfoedion. Wrth wneud hynny gallant nodi eu safle presennol, gosod targedau a symud tuag atynt a gwybod a ydynt wedi cyrraedd y targedau, a phryd y'u cyrhaeddwyd. Dylai targedau unigol fod yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith y dysgwr, fel yr amlygir drwy adborth ffurfiannol, ac felly'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Ni allant fod â chyswllt uniongyrchol â deilliannau neu ddisgrifiadau lefel, gan fod y rhain yn disgrifio cyrhaeddiad dros ystod o dasgau ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Yn ei rhaglen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu, mae APADGOS wedi nodi'r tair egwyddor allweddol a ganlyn:

Techneg holi cwestiynau lle mae angen ystyried:

- amser meddwl (aros)
- y mathau o gwestiynau a ofynnir.

Rhoi adborth i'r dysgwyr, sy'n cynnwys y nodweddion canlynol:

- uniongyrchedd ac eglurder
- peidio defnyddio graddau neu rifau, dim ond targedau a sut i'w cyrraedd
- bod yn wrthrychol ac yn ddysgwr-ganolog
- yn digwydd ar adegau allweddol yn ystod y dasg, yn hytrach na gorlwytho adborth ar y diwedd
- rhoi cyfle i gywiro camsyniadau neu atal disgyblion rhag dilyn llwybrau di-bwrpas.

**Mae manteision
clir i'r dysgwyr
a'r addysgwr.**

Hunanasesu ac asesu cyfoedion sy'n cynnwys:

- rhannu a deall yr hyn y bwriedir ei ddysgu
- deall y meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol
- cydnabod gwaith o ansawdd.

Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol, a dylent fod yn sail i'r holl addysgu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd asesu ffurfiannol. Dengys ymchwil fod manteision clir i'r dysgwr a'r addysgwr. Bydd dysgwyr yn ennyn dealltwriaeth glir o'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda, a'r hyn y gallent ei wella, ac yn cael arweiniad i gyflawni'r gwelliant hwnnw. Maent yn dysgu sut i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain a dysgu eraill heb ddibynnu gormod ar eu hathro/hathrawes. Ar yr un pryd, gall tystiolaeth o asesu ar gyfer dysgu ddangos i'r athro/athrawes pryd mae angen treulio mwy o amser ar agwedd arbennig, a phryd y mae dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Bydd athrawon yn datblygu gwybodaeth fanwl am gryfderau pob dysgwr, a'r meysydd lle mae angen mwy o ymyrryd a chefnogaeth, a byddant yn gallu ymgorffori hynny wrth gynllunio i'r dyfodol.

Dylai athrawon gofio bod cynllunio *ar gyfer* creu cyfleoedd i asesu ar gyfer dysgu yn rhan annatod o'r gwaith paratoi, ac o'i weithredu'n effeithiol, gall ryddhau amser i ddatblygu syniadau a datrys camsyniadau unigolion. O'u defnyddio'n ffurfiannol, gall profion crynodol fod yn rhan gadarnhaol o'r broses ddysgu.

Ar adegau allweddol yng nghontinwwm dysgu y dysgwr, mae'n hanfodol bod gwybodaeth ynglŷn â'r cwricwlwm blaenorol a chyrhaeddiad y dysgwr yn cael ei rhannu ymysg pawb sy'n ymwneud â'r dysgwr. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3, fel bod dysgwyr yn cael cymorth i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes a symud ymlaen heb ailadrodd diangen a allai arwain at anniddigrwydd neu ddifaterwch. Ceir rhestr o gyhoeddiadau sy'n rhoi arweiniad ynghylch strategaethau trosglwyddo defnyddiol yn Atodiad 3.

Asesu dysgu

Datblygwyd deilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol er mwyn cynnal asesu crynodol o'r dysgu ar ddiwedd cyfnod allweddol, h.y. asesu dysgu. Nid ydynt yn gysylltiedig â chyfnod neu gyfnod allweddol penodol ond maent yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddu dysgwyr sy'n gweithio ar ddeiliant neu lefel benodol. Maent yn cyfeirio at gyrhaeddiad dysgwr dros amser a thros ystod o waith, gan roi golwg gyfannol ar nifer o nodweddion amrywiol. Llunnir dyfarniad yn seiliedig ar y dadansoddiad sy'n cydfynd orau, lle bydd pob disgrifiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr â disgrifiadau o ddeilliannau a lefelau cyfagos, ac i waith y dysgwr fe bennir y deiliant neu'r lefel sy'n cydfynd orau. Mae'n debygol y bydd y dysgwr yn arddangos rhai nodweddion o lefelau neu ddeilliannau cyfagos, ond rhaid i'r dyfarniad crynodol gyfeirio at y deiliant neu'r lefel sy'n cydfynd orau â chyrhaeddiad cyffredinol y dysgwr. Wrth ddylunio'r lefelau, ni fwriadwyd i athrawon eu hisrannu'n fypwyol.

Ni fydd cynnydd y dysgwyr yn rheolaidd nac yn llinellol o reidrwydd – gallant lithro'n ôl mewn rhai agweddau ar eu gwaith, aros ar yr un lefel am gyfnod, neu ddatblygu'n sylweddol mewn un neu fwy o agweddau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, disgwylir y bydd y dysgwr 'cyffredin' yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn codi un lefel dros gyfnod o ddwy flynedd, yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae hyn yn golygu bod lefelu gwaith dysgwr yn rhy aml yn weithred wrthgynhyrchiol, yn aml yn ddiystyr, ac yn gwangalonni rhieni/gwarcheidwaid gan beri dryswch iddynt.

Ni ddyluniwyd deilliannau na disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol i'w defnyddio gyda dysgwyr o ddydd i ddydd, nac ychwaith er mwyn cynhyrchu data hanner tymor neu dymhorol. Ni ddylid lefelu darn unigol o waith gan na all ddarparu'r ystod o wybodaeth sydd ei hangen i bennu'r dyfarniad sy'n cydfynd orau, er y gallai arddangos nodweddion lefel benodol.



Dangosir y berthynas rhwng Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol, disgrifiadau lefel a chymwysterau yn y diagram isod:

Oedran 3

7

14 Cymwysterau

Llwybrau Dysgu		
Deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen	Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol	Cyn Mynediad
Deilliant 2 y Cyfnod Sylfaen	Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol	
Deilliant 3 y Cyfnod Sylfaen	Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol	
Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen	Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol	Mynediad 1
Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen	Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol	Mynediad 2
Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen	Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol	Mynediad 3
	Lefel 4 Cwricwlwm Cenedlaethol	TGAU
	Lefel 5 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Lefel 6 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Lefel 7 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Lefel 8 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Perfformiad Eithriadol	

Yr her i ysgolion

Dylai rheolwyr ysgol:

- weithredu egwyddorion asesu ar gyfer dysgu drwy'r holl ysgol fel bo modd i ddysgwyr ac athrawon asesu cynnydd parhaus y dysgwyr yn effeithiol, sy'n gysylltiedig â thargedau a osodir i bob unigolyn
- cydnabod bod cynllunio cyfleoedd i gyflawni egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn rhan hanfodol o'r gwaith o baratoi gwers
- annog athrawon i beidio â defnyddio deilliannau a lefelau disgrifiad y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer asesu o ddydd i ddydd neu bob tymor, neu greu is-ddosbarthiadau mympwyol o fewn lefel
- defnyddio deilliannau a lefelau disgrifiad y cwricwlwm cenedlaethol at y diben a fwriadwyd, h.y. er mwyn cynnal yr asesu crynodol mwyaf priodol ar ddiwedd cyfnod allweddol
- sicrhau y rhennir gwybodaeth asesu ynglŷn â dysgwyr unigol ymysg pawb sy'n ymwneud â'r dysgwr
- monitro a gwerthuso polisiâu a gweithdrefnau asesu a'u heffaith ar ddysgu.

Cymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4



Sicrhau cymwysterau perthnasol a dibynadwy

Bydd y rhan fwyaf o gyflawniadau pobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael eu cydnabod a'u hadrodd trwy gymwysterau. Adolygir cymwysterau'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau i gyfateb i anghenion pobl ifanc, bod canolfannau ac ymgeiswyr yn teimlo eu bod yn hydrin, a bod y cymwysterau'n cydweddu â pholisi 14–19 cyffredinol Cymru.

Darperir mwy o ddewis trwy:

- gynyddu ystod y pynciau
- cynnig llwybrau eraill o fewn pynciau
- ystod gynyddol o gymwysterau galwedigaethol.

Mae'r datblygiadau hyn yn agor mwy o bosibiliadau ar gyfer llwybrau dysgu sy'n addas i'r unigolyn.

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc 14–16 mlwydd oed yn astudio TGAU a chymwysterau galwedigaethol ar Lefelau 1 a 2. Mae cymwysterau Lefel Mynediad yn darparu llwybrau achredu i'r bobl ifanc hynny sy'n gweithio ar Lefelau 1 i 3 y cwricwlwm cenedlaethol.

TGAU

Mae TGAU yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Yn y pwyntiau a ganlyn ceir crynodeb o faes yr adolygu hwnnw:

- Mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a TGCh, bydd y manylebau TGAU newydd yn sicrhau parhad a dilyniant o Gyfnod Allweddol 3 trwy roi mwy o bwyslais ar sgiliau cyfathrebu, rhif a TGCh y mae ar bobl ifanc eu hangen mewn bywyd, wrth ddysgu ac mewn gwaith, nag a wneir ar hyn o bryd yn y cyrsiau TGAU presennol. Dechreuwyd cyrsiau TGAU peilot mewn Cymraeg, Saesneg a TGCh ledled Cymru ym mis Medi 2007, ac mewn mathemateg o fis Medi 2006. Bydd manylebau newydd, yn seiliedig ar ddeilliannau'r cynlluniau peilot, ar gael erbyn tymor yr hydref 2009, i'w haddysgu o fis Medi 2010.

- Mewn Cymraeg ail iaith, mae cynllun peilot yn cael ei gynnal ar gyfer cyrsiau TGAU newydd sy'n cynnig llwybrau gwahanol, gan gynnwys llwybr mwy galwedigaethol, a byddant ar gael i bob ysgol o fis Medi 2009.
- Mae ystod o lwybrau wedi cael eu darparu mewn gwyddoniaeth drwy gyflwyno gwell dewis o ran yr amrywiaeth o gyrsiau TGAU sydd ar gael, ym mis Medi 2006.
- Mae'r gyfres o gyrsiau TGAU cymhwysol yn cael ei hadolygu i sicrhau bod teitlau'r pynciau sydd ar gael yn darparu llwybr galwedigaethol sy'n ddilys ac yn wahanol i'r cyrsiau TGAU traddodiadol, ac i sicrhau eu bod yn ddibynadwy ac yn cynnwys gofynion asesu priodol. Cyflwynir cymwysterau TGAU yn ôl teitlau cymhwysol ynghyd â'r holl bynciau eraill o fis Medi 2009.
- Mae'r trefniadau asesu mewnol hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn deg a dibynadwy.

Sgiliau Allweddol

Gellir defnyddio'r chwech Sgîl Allweddol i achredu'r sgiliau sy'n sail i'r cwricwlwm diwygiedig, a gellir cael tystiolaeth ar gyfer asesu portffolio o ystod o feysydd y cwricwlwm. Yn arbennig, bydd pob cwrs TGAU yn parhau i gynnig cyfleoedd penodol i ymgeiswyr gael datblygu eu sgiliau allweddol a defnyddio'r gwaith a gynhrychir yn rhan o'u cwrs TGAU fel deunydd asesu yn eu portffolio sgiliau allweddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ganolfannau sy'n cynnig peilot Cymhwyster Bagloriaeth Cymru cyn-16.



Atodiadau

Atodiad 1: Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3–7 oed

Y Cyfnod Sylfaen
Meysydd dysgu statudol
Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu
Datblygiad Mathemategol
Datblygu'r Gymraeg ⁺
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
Datblygiad Corfforol
Datblygiad Creadigol
Gofynion eraill statudol
Addysg grefyddol*
Addysg rhyw ^o

- + Dim ond mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Saesneg y ceir gofyniad ynghylch Datblygu'r Gymraeg.
- * Rhaid darparu addysg grefyddol i bob plentyn sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir, gan gynnwys y rhai hynny mewn dosbarthiadau derbyn, gan eithrio plant mewn ysgolion neu ddosbarthiadau meithrin.
- ^o Mae'n ofynnol i ysgolion cynradd yng Nghymru gael polisi ar addysg rhyw.

Atodiad 2: Cyfnodau Allweddol 2 i 4 ac ôl-16 y cwricwlwm ysgol

7-14		14-19	
Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Ôl-16
Gofynion y cwricwlwm cenedlaethol statudol			
Saesneg	Saesneg	Saesneg	
Cymraeg ⁺	Cymraeg ⁺	Cymraeg ⁺	
Ieithoedd tramor modern [#]	Ieithoedd tramor modern		
Mathemateg	Mathemateg	Mathemateg	
Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth	
Dylunio a thechnoleg	Dylunio a thechnoleg		
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu		
Hanes	Hanes		
Daeryddiaeth	Daeryddiaeth		
Celf a dylunio	Celf a dylunio		
Cerddoriaeth	Cerddoriaeth		
Addysg gorfforol	Addysg gorfforol	Addysg gorfforol	
Gofynion statudol eraill			
Addysg grefyddol	Addysg grefyddol	Addysg grefyddol	Addysg grefyddol
Addysg rhyw [°]	Addysg rhyw	Addysg rhyw	Addysg rhyw
	Gyrfaoedd a byd gwaith	Gyrfaoedd a byd gwaith [*]	Gyrfaoedd a byd gwaith [*]
Addysg bersonol a chymdeithasol	Addysg bersonol a chymdeithasol	Addysg bersonol a chymdeithasol [*]	Addysg bersonol a chymdeithasol [*]

+ Yn cyfeirio at y modelau Cymraeg a Chymraeg ail iaith.

Ceir fframwaith anstatudol Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ieithoedd tramor modern.

° Mae'n ofynnol i ysgolion cynradd yng Nghymru gael polisi ar addysg rhyw.

* Mae gan ddysgwyr llawn amser yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 hawl i'r Craidd Dysgu 14-19, ac mae'r rhain yn rhan ohono.

Atodiad 3: Cyfeiriadau defnyddiol

Y cwricwlwm newydd

- Bydd yr holl ddogfennau sy'n trafod y Cyfnod Sylfaen yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Gellir dod o hyd iddynt yn:

www.cymru.gov.uk/cyfnodsylfaen

Mae'r wybodaeth ganlynol ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

- Fframweithiau a gorchmynion pwnc diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol.
- Manylion a chanllawiau'n ymwneud â Llwybrau Dysgu 14–19.
- Gwybodaeth ynglŷn ag asesu, gan gynnwys asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- *Pam y mae angen datblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?*
- *Sut i ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.*
- Poster o ganfyddiadau interim y ddogfen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu.

Bydd mwy o ganllawiau, gan gynnwys canllawiau pwnc-benodol, yn cael eu cyhoeddi a'u darparu ar wefan y Cynulliad yn haf 2008.

Anghenion addysgol ychwanegol

- Bydd canllawiau newydd, gan gynnwys *Cwricwlwm i Bob Dysgwr*, yn cael eu llunio i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol.
- *Llwybrau Dysgu – Deunyddiau asesu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys ac anabledau ychwanegol* (LICC, 2006)
- *Ffocws ar gyrhaeddiad – Canllawiau ar gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol wrth osod targed ysgol gyfan* (ACCAC, 2002)
- *Mae Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad* (ACCAC, 2003) yn canolbwyntio'n arbennig ar addasu'r cwricwlwm i gyfateb i anghenion disgyblion galluog a thalentog.
- *Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog* (Nace Cymru/LICC, 2006) Er bod y ddogfen hon yn canolbwyntio ar ddarpariaeth i ddisgyblion mwy galluog a thalentog, mae'n cynnwys materion sy'n berthnasol i'r holl ysgol, megis dysgu ac addysgu, ehangder y cwricwlwm, nodi tangyflawni, adolygiad ysgol a monitro.

Sgiliau a dysgu ar hyd y cwricwlwm

- *Y Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007.
- *Mae Gwneud y Cysylltiad: Dysgu ieithoedd 5–14* (ACCAC, 2003) yn canolbwyntio ar y modd y gall athrawon greu cysylltiadau ar draws ieithoedd, adeiladu ar brofiadau eraill y disgyblion o iaith ac ar ddysgu blaenorol, a chefnogi cynnydd disgyblion wrth iddynt ddysgu iaith, beth bynnag fo'r iaith honno.
- *Mae Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig* (ACCAC, 2003) yn parhau i fod yn berthnasol ac yn rhoi canllawiau defnyddiol ynglŷn â'r agwedd hon ar y cwricwlwm, sy'n parhau i fod yn ofyniad statudol ar gyfer pob disgybl 3–14.
- Cymru, Ewrop a'r Byd ar gyfer 14–16, yn rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC), mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei ehangu i gynnwys gofyniad i astudio Cymru, Ewrop a'r Byd. Bydd canllawiau i gefnogi'r newid hwn ar gael yn 2009, ac mae'n seiliedig ar brofiadau blaenorol, yn arbennig yng nghanolfannau CBC.
- *Mae Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru* (ACCAC, 2001) yn parhau i roi arweiniad perthnasol i ysgolion.

Y gyfres Anelu at Ragoriaeth

- *Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3*, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ACCAC, 2002
- *Codi Safonau Mewn Llythrennedd a Rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3*, BBC Cymru, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ACCAC, 2003 (ar gael gan BBC Cymru)
- *Codi Safonau Mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 3*, BBC Cymru, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ACCAC, 2004 (ar gael gan BBC Cymru)
- *Codi Safonau: Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, BBC Cymru, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ACCAC, 2004 (ar gael gan BBC Cymru)
- *Datblygu Meddwl ar Draws y Cwricwlwm*, BBC Cymru, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007 (ar gael gan BBC Cymru)
- *Symud Ymlaen . . . Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ACCAC, 2004 (ar gael gan Estyn)
- *Symud Ymlaen . . . Gwella Dysgu, Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ACCAC, 2004 (cyhoeddiad ar wefan Estyn, www.estyn.gov.uk)
- *Mae Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005*, yn cynnwys pennod ar drosglwyddo sy'n disgrifio rhai arferion cyfredol (cyhoeddiad ar wefan Estyn, 2006, www.estyn.gov.uk)
- *Mae Adolygiad o gyfraniad y rhaglen Anelu at Ragoriaeth tuag at godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3*, Estyn, 2006, hefyd yn cynnwys adran ar drosglwyddo (cyhoeddiad ar wefan Estyn, www.estyn.gov.uk).

Cyhoeddiadau eraill gan Estyn

- *Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Gyfnod Pontio*, Estyn, 2004
- *Y Cwricwlwm Cymreig – Cam 2*, 2006
- *Trawsnewid Ysgolion: papur trafod*, Mawrth 2007